**Blog Beca**

"Haia! Fy enw i ydi Beca, dwi’n byw yn Llanrug sydd yn agos i Gaernarfon, dwi’n 16 oed a newydd gychwyn yn y chweched yn astudio Drama, Addysg Grefyddol ac Addysg Gorfforol.

Ar ddechrau mis Medi eleni mynychais benwythnos hyfforddi adran chwaraeon yr Urdd. Des i glywed am y penwythnos gan Carwyn, un o swyddogion adran chwaraeon yr Urdd pan ddaeth i’n hysgol ni i hybu’r cwrs. Roedd y cwrs yn swnio’n wych! Aros dwy noson yn Mhrifysgol Aberystwyth, gyda pobl ifanc o bob cwr o Gymru, derbyn cymhwysterau hyfforddi plant cynradd, bws i lawr i Aberystwyth a nol a bwyd! Gyd am £20! Nice one!

Felly gan ddilyn cyfarwyddiadau Carwyn anfonais gais at Urdd gan obeithio lle ar y penwythnos, yn fuan wedyn cefai e-bost yn cadarnhau fy mod wedi cael lle  ar y cwrs.

Ar y dydd gwener yr 2il o Fedi cyn gadael o Fangor am Brifysgol Aberystwyth, doedd gen i ddim syniad beth i ddisgwl… Roedd hi’n ddiwedd gwylia haf a fy lefelau ffitrwydd ar eu isaf felly doeddwn i ddim yn barod am sesiwn dwys , rhedeg elltydd,na prawf blip, a doeddwn i ddim yn siwr os oeddwn i hyd yn oed yn cofio sut i ddal beirio heb son am ei defnyddio hi.

Doedd dim angen poeni! Doedd dim rhedeg elltydd na darlithoedd boring! Yn fuan wedi ni gyraedd cafodd pawb ei sortio fewn i dimau. Roeddwn i yn y tîm oren gyda criw o genod lyfli o Ysgol Gyfun Garth Olwg ac daethom yn ffrindiau yn sydyn iawn. Ar ol i ni fwyta gormod o fwyd yn y ffreutur ‘Tamed Da’ oedd hefyd ar y campws, aethom syth lawr i ddechrae ar y sialensau Gorchestwyr.

Roedd y gemau Gorchestwyr yn rhedeg trwy’r penwythnos, gyda phob tîm yn ennill pwyntiau. Roedd saith rownd gwahanol; nofio, caiacio, tug of war, pêl-fasged, gwibio, “dodge ball” a rygbi tag.

Roedd tîm y staff yn HYNOD o gystadleuol! Gallwch weld y lluniau o'r gemau ar twitter drwy ddefnyddio'r #UrddAber2016. Er mai nid y tîm oren gurodd y fedal aur ar ddiwedd y penwythnos, cefais lwyth o hwyl yn cymryd rhan yn y gemau. Roedd y gemau yn ffordd wych i ddod i adnabod pobl yn sydyn ac yn goblyn o 'ice breaker' da.

Yn amlwg nid oedd y penwythnos i gyd yn llawn gemau - roedd rhaid gweithio tuag at ennill y cymwysderau hyfforddi. Derbynnais tri gymhwyster ar ddiweddd y cwrs a bydd y cymwysterau yma yn fy nghaniaatau i gynnal/cyd gynnal sesiynau urdd yn fy nghymuned lleol. Dwi'n barod wedi rhoi fy enw lawr i helpu yn y sesiynau pel rwyd, gan mai dyma yw fy nghamp i. Wrth gwrs mae unrhyw gymhwyster yn edrych yn dda ar C.V. ond mae cymhwsterau hyfforddi plant yn mynd i agor  pob math o lwybrau i mi yn y dyfodol gobeithio, megis cael fy nerbyn i gyrsiau chwaraeon yn y Brifysgol e.e. prifysgol Aberystwyth neu hyd yn oed fy helpu gael swydd  yn gweithio gyda plant - neu efallai swydd gyda'r Urdd!

Un o'r pethau gorau am y penwythnos oedd y lleoliad. Cafodd pawb ystafell i'w hunain gyda gwely dwbl ac ystafell molchi gyda chawod! Ar bob llawr roedd yna gegin gyda theledu a soffa yno ble treuliais i a fy ffrindiau newydd ddwy noson gofiadwy yn gwylio teledu a bwyta doritos a yfed te. Ma' 'na hwyl 'w gael bois! Diolch Prifysgol Aberystwth! A diolch Yr Urdd! Roedd o'n class!"